

At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor
Craffu Partneriaethau

Dyddiad: Dydd Gwener, 7 Rhagfyr
2022

Rhif Union: 01824 712554

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU, DYDD IAU, 15 RHAGFYR 2022 am 10.00 am yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRWY GYNHADLEDD FIDEO.**

Yn gywir iawn

G Williams
Swyddog Monitro

AGENDA

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT (Tudalennau 5 - 6)

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu sy'n rhagfanu ynglŷn ag unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF (Tudalennau 7 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 27 Hydref 2022 (copi ynghlwm).

Bydd y Pwyllgor yn trafod yr eitem fusnes ganlynol, sef eitem fusnes rhif 5, yn ei rinwedd fel Pwyllgor Craffu Trosedd ac Anhrefn dynodedig y Cyngor, yn unol â Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006, adrannau 19 a 20.

5 PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL (Tudalennau 15 - 34)

Ystyried adroddiad gan Reolwr y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol (copi ynghlwm), sy'n manylu ar gyflawniad y Bartneriaeth o ran cyflawni ei chynllun gweithredu ar gyfer 2021/22 a'i chynnydd hyd yma o ran cyflawni ei chynllun gweithredu ar gyfer 2022/23.

6 CYNGOR GWASANAETHAU GWIRFODDOL SIR DDINBYCH (CGGSDD)

Rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r Pwyllgor ynghylch y cynnydd a wnaed hyd yma o ran gwireddu gweledigaeth CGGSDD, gan wella ei berthynas waith â'r Cyngor a sefydliadau gwirfoddol yn Sir Ddinbych.

7 RHAGLEN WAITH CRAFFU (Tudalennau 35 - 58)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Craffu (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r a elodau am faterion perthnasol.

8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Derbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar wahanol Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor.

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Joan Butterfield (Cadeirydd)

Peter Scott (Is-Gadeirydd)

Jeanette Chamberlain-Jones

Terry Mendies

Kelly Clewett

Raj Metri

Pauline Edwards

David Williams

Bobby Feeley

Elfed Williams

Martyn Hogg

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhwng ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor yn Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo ddydd Iau 27 Hydref 2022 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Joan Butterfield (Cadeirydd), Jeanette Chamberlain-Jones, Kelly Clewett, Pauline Edwards, Bobby Feeley, Martyn Hogg, Terry Mendies, Raj Metri, Peter Scott (Is-Gadeirydd), David Williams ac Elfed Williams

Arsylwr - Y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts

HEFYD YN BRESENNOL

Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Y Cynghorydd Elen Heaton.
Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd: Y Cynghorydd Barry Mellor.

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes a Swyddog Monitro (GW), Pennaeth Dros Dro Priffyrdd a'r Gwasanaeth Amgylcheddol (AC), Rheolwr Dros Dro Gwastraff ac Ailgylchu (JL), Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol (CR), Cydlynnydd Craffu (RhE), Gweinyddwyr Pwyllgor (SJ, yn cynnal y cyfarfod, NH a RhTJ)

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Nicola Stubbins, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau. Roedd Gary Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes a Swyddog Monitro yn bresennol fel cymorth corfforaethol.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Fe wnaeth y Cynghorydd Kelly Clewett ddatgan cysylltiad personol ag eitem busnes rhif 6, 'Adroddiad Blynnyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol 2021/22', yn rhinwedd ei swydd fel Arweinydd Tîm Adnoddau Cymunedol Dinbych (CRT) ac fel gweithiwr i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau, a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf 2022.

Penderfynwyd: y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf 2022 fel cofnod cywir.

Nid oedd materion yn codi o gynnwys y cofnodion.

5 DARPARIAETH CONTRACT GWASANAETHAU GORFODI AMGYLCHEDDOL

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Gwastraff, yr Amgylchedd a Chludiant, y Cynghorydd Barry Mellor, yr adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) ochr yn ochr â Phennaeth Dros Dro Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a'r Rheolwr Dros Dro Gwastraff ac Ailgylchu. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ar gynnydd y trefniant hwn drwy gontract allanol ar ddiwedd cyfnod y contract, ac mae'n manylu ar y trefniadau arfaethedig yn y dyfodol ar gyfer darpariaeth barhaus y gwasanaethau hyn ar draws ardal Sir Ddinbych, gan amlygu'r risgiau i'r trefniant hwn drwy gontract allanol a sut mae'r risgiau hynny yn cael eu rheoli. Eglurodd yr Aelod Arweiniol, er y gallai'r penderfyniad i ddyfarnu'r contract fod wedi'i wneud gan y Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol, dan bwerau a ddirprwywyd iddo, roedd Pennaeth y Gwasanaeth a'r Aelod Arweiniol yn awyddus i ofyn am farn yr aelodau ar fanylion y contract, yn enwedig y diwygiadau arfaethedig i'r contract.

Fe wnaeth y darparwr gwasanaeth ddarparu patrolau gan swyddogion Gorfodi Amgylcheddol ledled y sir (tir â mynediad cyhoeddus) er mwyn codi ymwybyddiaeth a chyhoeddi Rhybuddion Cosb Benodedig (RhCB) ar gyfer troseddau amgylcheddol lefel isel. Roedd mwyafrif y troseddau yn ymwneud â thafllu sbwriel a thorri Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus Sir Ddinbych (Rheoli Cŵn). Fe wnaethant hefyd roi Rhybuddion Cosb Benodedig am droseddau amgylcheddol eraill gan gynnwys gosod posteri'n anghyfreithlon a graffiti a gorfodi deddfwriaeth ddi-fwg. Roedd y darparwr gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am ystod o gymorth swyddfa gefn mewn perthynas â Rhybuddion Penodedig, gan gynnwys rheoli cyfraddau taliadau a pharatoi ffeiliau achos ar gyfer erlyniadau posibl (am beidio â thalu Rhybuddion Cosb Benodedig a cherdded i ffwrdd heb dderbyn y ddirwy). Mae hefyd yn ofynnol iddynt fod yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer cwynion a sylwadau gan y cyhoedd.

Cafodd y Pwyllgor wybod am amrywiadau'r contract, sef -

Daeth tri amrywiad i fanylion contract 2019 i rym ar 10 Hydref 2022:

- (i) Ymestyn y contract presennol am 24 mis (Amrywiad Sylweddol) tan 9 Hydref 2024.
- (ii) Ehangu cwmpas y contract drwy gynnwys dau faes ychwanegol o orfodi amgylcheddol – i ddechrau drwy ddau gynllun peilot chwe mis. (Nid yw'n cael ei ystyried yn amrywiad sylweddol);
- (iii) Cynnwys cymal "terfynu er hwylustod", sy'n galluogi'r contractwr i derfynu'r contract gyda 12 wythnos o rybudd, pe bai'r contract yn methu â bod yn ymarferol yn fasnachol iddynt. (Nid yw'n cael ei ystyried yn amrywiad sylweddol);

Trafododd Aelodau'r canlynol mewn mwy o fanylder:

- Codwyd pryderon ynglŷn â nifer isel o batrolau a gofnodwyd ar gyfer ardaloedd mwy gwledig y sir, h.y ardaloedd Dyffryn Dyfrdwy, Dinbych a Rhuthun, gan fod rhai aelodau'n teimlo bod y patrolau'n canolbwyntio ar ardaloedd twristiaid ar hyn o bryd. Teimlai'r Pwyllgor bod angen dull Sir

Ddinbych cyfan i'r contract newydd. Cadarnhaodd swyddogion bod y mater hwn wedi'i nodi ac roedd yn rhan o drafodaeth barhaus ar hyn o bryd rhwng y Cyngor a'r cwmni.

- Roedd gan y Pwyllgor bryderon mewn perthynas â chost a maint yr elw ar gyfer y cwmni sy'n darparu'r gwasanaeth. Roedd Aelodau'n bryderus y gall hyn wthio'r cwmni i fynd ar drywydd ffynonellau elw yn hytrach na delio â'r materion a oedd yn achosi pryder i drigolion, taflu sbwriel a baw cŵn. Eglurodd y swyddogion y byddai'r cynnig i godi lefelau dirwy mewn perthynas â throseddau baw cŵn yn gobeithio atal troseddau o'r fath a lleihau'r lefelau o droseddau o'r fath yn y dyfodol. Roedd baw cŵn yn cael ei ystyried gan y cyhoedd fel trosedd yn erbyn pobl a chymunedau, felly roedd yn bwysig bod dirwyon yn cael eu pennu ar lefel i helpu atal ail droseddu wrth hefyd addysgu troseddwyr parhaus am effaith y drosedd. Cytunodd y pwyllgor bod addysgu pobl yn hollbwysig, a byddai perthynas waith dda gyda'r Tîm Cyfathrebu'n hollbwysig i fynd i'r afael â'r mater yn effeithiol.
- Cyfeiriodd yr aelodau at y posibilrwydd y byddai rhai pobl yn osgoi cael eu dal a chael dirwy wrth fynd â'u cŵn am dro yn ystod oriau anghymdeithasol pan na fyddai swyddogion yn bresennol. Eglurodd swyddogion nad oedd ganddynt reolaeth uniongyrchol dros ble a phryd y byddai gorfodi'n digwydd, ond roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda'r darparwr gwasanaeth i geisio addasu ei oriau gwaith i redeg o 7am tan 7pm bob dydd.
- Codwyd y mater o ran nifer y biniau sydd ar gael ac a oes unrhyw ddull o gael biniau ychwanegol mewn ardaloedd gwledig. Dywedodd swyddogion eu bod wedi defnyddio ymholiadau a chwynion C360 i bennu a oes angen biniau newydd neu ychwanegol mewn rhai ardaloedd.
- Codwyd y mater mewn perthynas â hen arwyddion a'r angen i adnewyddu arwyddion ledled y sir. Nododd swyddogion bod y mater yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, a'u bod yn edrych ar Caru Cymru (Cadwch Gymru'n Daclus yn flaenorol) fel ffynhonnell cyllid posibl ar gyfer arwyddion newydd.
- Ynglŷn â'r ffioedd cyfreithiol sy'n gysylltiedig ag erlyn troseddwyr am beidio â thalu Rhybuddion Cosb Benodedig, dywedwyd wrth yr aelodau y byddai'r Cyngor yn adennill yr holl gostau drwy system y llys ynadon.
- Cadarnhawyd bod swyddogion Gorfodi Amgylcheddol y Cyngor yn delio â digwyddiadau tipio anghyfreithlon, y cynnig yn y contract penodol hwn oedd i'r cwmni (*District Enforcement*) ategu gwaith Tîm Gorfodi Amgylcheddol y Cyngor drwy ymgymryd â dyletswyddau megis gwirio bod y busnes yn meddu ar y trwyddedau gofynnol a bod ganddynt drefniadau ar waith i waredu eu gwastraff yn gyfreithlon.
- Dywedodd y Cyngorydd Martyn Hogg ei fod yn cytuno â'r contract arfaethedig a'i amrywiadau, ond byddai'n orfodol i'w ddarpariaeth gael ei fonitro'n agos a dylai data hanfodol fod ar gael i amlygu llwyddiant y busnes.

Yn dilyn trafodaeth fanwl a thrylwyr gan y Pwyllgor:

Penderfynwyd: - ar ôl ystyried y wybodaeth yn yr adroddiad, cefnogi'r amrywiad contract arfaethedig i ymestyn y trefniant allanol presennol gyda District Enforcement i 9 Hydref 2024, ac yn amodol ar y sylwadau a wnaed yn ystod y drafodaeth:

- (i) cadarnhau a chymeradwyo'r Adroddiad Penderfyniad Dirprwyedig 'Adolygiad o Symiau Dirwyon Rhybuddion Cosb Benodedig Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer Troseddau Amgylcheddol' fel y gall y Cyngor barhau i ddarparu patrolau gorfodi amgylcheddol trwy drefniant sy'n niwtral o ran cost (fel y manylir yn Atodiad 1 yr adroddiad); a*
- (ii) argymhell bod cynllun cyfathrebu yn cael ei lunio a'i ddechrau gyda'r bwriad o sicrhau bod trigolion, busnesau'r sir a'r holl gynghorau dinas, tref a chymuned yn cael gwybod am y newidiadau arfaethedig cyn eu rhoi ar waith.*

6 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL 2021/22

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol ochr yn ochr â Phennaeth Cydweithio Rhanbarthol Adroddiad Blynyddol - Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol 2021/22 (a ddosbarthwyd ymlaen llaw). Pwrpas yr adroddiad oedd rhoi gwybodaeth i bartneriaid o ran Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a'i weithgareddau yn ystod 2021/22.

Ym mis Mawrth 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ganllaw ar gyfer cwblhau adroddiadau Blynyddol Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac roedd disgwyl i Fyrddau ddefnyddio'r canllaw hwn i gwblhau eu hadroddiadau. Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn cynnwys yr holl wybodaeth yr oedd angen ei chynnwys yn unol â'r Canllaw. Roedd adroddiad Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi'i ysgrifennu mewn fformat a oedd yn dal yr holl wybodaeth yr oedd angen ei chyflwyno. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys safbwyntiau nifer o aelodau'r Bwrdd.

Mae'r Bwrdd wedi'i sefydlu i fodloni gofynion Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Roedd y Ddeddf yn mynnu bod awdurdodau lleol yn gwneud trefniadau i hyrwyddo cydweithredu â'u partneriaid perthnasol ac eraill, mewn perthynas ag oedolion sydd ag anghenion gofal a chymorth, gofalwyr a phlant. Roedd hefyd yn gosod dyletswydd ar bartneriaid perthnasol i gydweithredu a darparu gwybodaeth i'r awdurdodau lleol at ddibenion eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

Tynnodd y Rheolwr Cydweithio Rhanbarthol sylw at feysydd penodol o ddiddordeb yn yr adroddiad -

Rôl y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yw dod â gwasanaethau iechyd, cymdeithasol, tai a'r trydydd sector a phartneriaid eraill ynghyd i gydweithio i integreiddio gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles ledled y rhanbarth.

I gefnogi'r gwaith a wneir, mae strwythur llywodraethu cymhleth, fel y gwelir ar dudalen 6 o'r adroddiad Blynyddol. Y prif fwrdd yw'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol sy'n cyfarfod bob mis ac mae'n gyfrifol am bennu cyfeiriad clir ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni. Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru'n adrodd yn ffurfiol i Fwrdd Arweinyddiaeth Gogledd Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid refeniw a chyllid cyfalaf i ni i gefnogi'r gwaith hwn.

Sefydlwyd Cronfa Gofal Integredig yn 2014 ac mae'n galluogi gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i gydweithio i roi cymorth i: pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor gan gynnwys pobl sy'n byw gyda dementia, pobl ag anableddau dysgu, plant ag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu salwch, gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc, plant sydd mewn perygl o fod yn blant sy'n derbyn gofal, mewn gofal neu sydd wedi'u mabwysiadu.

A'r rhaglen drawsnewid a ddechreuodd ym mis Ebrill 2018 i wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru.

Roedd y ddwy raglen yno i helpu i gyflwyno'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Strategaeth Cymru Iachach Llywodraeth Cymru drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Mae'r 12 mis diwethaf wedi gweld y ddwy raglen flaenorol ar gyfer Integreiddio - Rhaglen Drawsnewid a'r Gronfa Gofal Integredig yn dod i ben a chronfa newydd yn cael ei datblygu - Cronfa Integreiddio Rhanbarthol.

- Asesiad o Anghenion y Boblogaeth 2022 - roedd y Bwrdd wedi cwblhau adolygiad llawn o Asesiad o Anghenion y Boblogaeth Gogledd Cymru'n llwyddiannus mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol ac arweinwyr y bwrdd iechyd, gyda chefnogaeth gan Ganolbwynt Cydlyn Ymchwil, Arloesi a Gwella ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Byddai'r data a'r dadansoddiad a oedd wedi'u cynnwys yn yr Asesiad hwn yn cael eu defnyddio i helpu i lunio blaenoriaethau rhanbarthol a chynlluniau gwasanaeth ardal wrth symud ymlaen.
- Sefydlu Is-Grŵp Plant o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru i ddarparu cyfeiriad strategol mewn perthynas â chefnogi teuluoedd plant ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol penodol.

Byddai'r wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys yn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth a'r Adroddiad Blynyddol yn cynorthwyo'r Bwrdd i gwmpasu a datblygu ei flaenoriaethau rhanbarthol a chynllunio a gwella gwasanaethau ledled y rhanbarth.

Yn ystod y drafodaeth, cododd yr aelodau'r canlynol -

- pryderon ynghylch lluo o wahanol fyrddau ledled Gogledd Cymru ac a ydynt yn achosi i adnoddau gael eu lledaenu'n rhy denau. Eglurodd y swyddogion a oedd yn ymateb bod gan y gwahanol fyrddau eu cylch gwaith eu hunain ac yn delio â materion yn unol â hynny. Cafodd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru fel Bwrdd Statudol ac felly roedd ei gylich gwaith wedi'i ddiffinio mewn deddfwriaeth.
- Roedd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru'n ymgymryd ag ychydig o waith diddorol a defnyddiol gyda'r bwriad o ddarparu

gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol wedi'u hintegreiddio'n well, er hynny, nid oedd y cyhoedd yn ymwybodol o'r gwaith a oedd yn cael ei wneud gan y Bwrdd. Roedd angen mynd i'r afael â hyn a'i hyrwyddo.

- Tynnwyd sylw at y ffaith bod digideiddio'r gwaith yn her gan fod nifer o aelodau'r Bwrdd yn cynrychioli gwahanol awdurdodau / cyrff ac nid oedd systemau meddalwedd y gwahanol sefydliadau'n gytûn a'i gilydd. Arweiniodd hyn at oedi a rhwystredigaeth ar gyfer y rhai a oedd yn darparu gwasanaethau. Roedd y Timau Adnoddau Cymunedol a'r Gwasanaethau Anabledau Dysgu wedi cael problemau mewn perthynas â hyn.
- Cododd yr aelodau'r mater gyda staffio yn y sector gofal, ac amlygwyd nad oedd staff yn cael eu talu ddigon nac yn cael eu gwerthfawrogi am eu gwaith. Roedd Bwrdd Gweithlu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru'n ymgysylltu'n weithredol gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â thâl, recriwtio a chadw, yn ogystal â cheisio dylanwadu ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r materion hyn.

Penderfynwyd:-

- (i) ***cadarnhau bod y pwyllgor wedi darllen, deall ac ystyried y gwaith a oedd yn ofynnol i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ei wneud; a***
- (ii) ***yn amodol ar y sylwadau uchod ar y gwaith a'r cynnydd yn ystod 2021/22 ar y meysydd gwaith sy'n cael eu symud ymlaen drwy Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, i dderbyn yr Adroddiad Blynyddol a chadarnhau ei gynnwys.***

7 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu adroddiad (a ddisbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r aelodau adolygu rhaglen waith y Pwyllgor. Dywedwyd wrth yr aelodau mai pwrpas yr adroddiad oedd adolygu gwaith y Pwyllgor yn y dyfodol i sicrhau ei fod yn cynnwys yr holl eitemau roedd yr aelodau wedi gwneud cais i'w trafod.

Dywedwyd wrth yr aelodau bod eitemau'r cyfarfod blaenorol a gafodd ei ganslo wedi'u hail drefnu ar gyfer cyfarfod mis Rhagfyr 2022.

Gofynnodd y Cydlynnydd Craffu i'r Pwyllgor enwebu cynrychiolydd i wasanaethu ar Fwrdd Prosiect Bwthyn y Ddôl. Dywedodd y Cynghorydd Bobby Feeley y byddai'n hapus i fod yn gynrychiolydd ar y Bwrdd, cafodd yr enwebiad hwn ei eilio gan y Cynghorydd Martyn Hogg. Roedd pawb a oedd yn bresennol yn cytuno â'r cynnig.

Penderfynwyd: yn amodol ar y newidiadau a'r ychwanegiadau uchod -

- (i) ***cadarnhau rhaglen gwaith i'r dyfodol drafft y Pwyllgor fel y manylir yn Atodiad 1 yr adroddiad; a***
- (ii) ***penodi'r Cynghorydd Bobby Feeley fel cynrychiolydd Pwyllgor Craffu Cyngor Sir Ddinbych ar Fwrdd Prosiect Bwthyn y Ddôl.***

8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.15pm.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r	Pwyllgor Craffu Partneriaethau
Dyddiad y cyfarfod	15 Rhagfyr 2022
Aelod/Swyddog Arweiniol	Y Cyngorydd Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau / Sian Taylor, Rheolwr Diogelwch Cymunedol
Pennaeth Gwasanaeth	Nicola Kneale, Pennaeth dros dro y Gwasanaeth Gwella Busnes a Moderneiddio
Awdur yr adroddiad	Sian Taylor, Rheolwr Diogelwch Cymunedol
Teitl	Diweddariad Blynyddol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar gyfer 2021-22

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1 Mae adroddiad gweithgarwch a pherfformiad y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn seiliedig ar y cyd-flaenoriaethau partneriaeth a nodwyd yn Archwiliad Troseddau Gogledd Cymru sy'n cael ei gynnal yn flynyddol. Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn cytuno ar y blaenoriaethau ac yna yn llunio cynllun gweithredu i'w gyflawni yn lleol. Caiff y cynllun ei fonitro gan Fwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel. Yn lleol rydym yn cyflawni'r cynllun gweithredu hwn drwy ddadansoddi beth sy'n digwydd yn eich ardal leol a gweithredu datrysiadau lleol.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi gwybod i'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau am weithgarwch y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar y Cyd o Ebrill 2021 - Mawrth 2022.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1 Bod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau yn ystyried ac yn rhoi sylwadau ar gynnwys y diweddariad perfformiad ac ystadegol ar gyfer 2021-2022 ynghlwm.

4. Manylion yr adroddiad

- 4.1 Cafodd Partneriaethau Diogelwch Cymunedol eu creu ym 1998 er mwyn datblygu a rhoi strategaethau a champau gweithredu ar waith i leihau trosedd ac anhrefn. Roedd gan bob Awdurdod ei Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ei hun. Tua 14 mlynedd yn ôl, unodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) a Chyngor Sir Ddinbych (CSDd) eu timau Diogelwch Cymunedol i greu un tîm, gyda CBSC yn gweithredu fel y prif gyflogwr. Mae'r adran Gwella Busnes a Moderneiddio yn arwain y gwaith o reoli'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn Sir Ddinbych.

- 4.2 Mae trefn cyfarfodydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn cynnwys:

- Grŵp Llywio Strategol - sy'n cyfarfod deirgwaith y flwyddyn
- Grŵp Tasg Ymddygiad Gwrthgymdeithasol – a gynhelir bob mis gyda'r Uwch Swyddogion Gorfodaeth a Thai
- Grwpiau Tasg a Gorffen – a gynhelir fel bo'r angen

- 4.3 Roedd y tri maes blaenoriaeth ar gyfer 2021-2022 fel a ganlyn:

Maes blaenoriaeth 1 - Gweithio mewn Partneriaeth i Leihau Trosedd ac Anhrefn

- Lleihau troseddau sy'n seiliedig ar y dioddefwr
- Lleihau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Cefnogi pobl ddiamddiffyn er mwyn eu hatal rhag dod yn ddioddefwyr troseddau
- Lleihau troseddau sy'n seiliedig ar y dioddefwr ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a ailadroddir er lles dioddefwyr a chyflawnwyr
- Gweithio gyda'r Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg i reoli nifer y bobl sy'n dioddef cam-drin domestig dro ar ôl tro
- Ymdrin yn effeithiol ag achosion risg uchel o gam-drin domestig a thrais rhywiol
- Gwella hyder pobl o ran rhoi gwybod am gam-drin domestig a thrais rhywiol
- Cynyddu ymwybyddiaeth pobl ifanc o drais rhywiol

Maes blaenoriaeth 2 - Gweithio mewn Partneriaeth i Leihau Aildroseddu – blaenoriaeth Genedlaethol/Ranbarthol

- Oedolion yn aildroseddu (18+)
- Plant a phobl ifanc yn aildroseddu (12-17)

Maes blaenoriaeth 3 – Blaenoriaethau lleol

- Lleihau troseddau sy'n gysylltiedig ag eiddo trwyddedig a thacsis
- Gwella hyder pobl i roi gwybod am ymddygiad gwrthgymdeithasol i'r Awdurdod Lleol
- Delio gydag unrhyw fannau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol mewn partneriaeth gydag eraill
- Codi ymwybyddiaeth yn lleol o faterion troseddau sy'n dod i'r amlwg

4.4 Mae gan bob maes blaenoriaeth nifer o ddangosyddion perfformiad i fonitro cynnydd a thueddiadau troseddau. Rydym yn adolygu'r holl ystadegau yn chwarterol yn ystod cyfarfodydd y Grŵp Llywio Strategol, ac yn fisol mewn ardal lleol ac yn gweithredu ar unrhyw fater sy'n codi.

4.5 Mae Adroddiad Perfformiad ac Ystadegau'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar gyfer 2021-2022 ynghlwm (**Atodiad 1**)

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Themau Corfforaethol?

5.1 Pan fo'n berthnasol, mae gwaith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn cyd-fynd â'r Flaenoriaeth Gwytnwch Cymunedol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae'r prosiectau partneriaeth o fewn y Cynllun Gweithredu yn cael eu hariannu'n llawn gan grantiau. Fodd bynnag, bydd pob gwasanaeth yn dyrannu swm penodol o gyllid i gefnogi canlyniadau yn uniongyrchol ar gyfer lleihau trosedd yn Sir Ddinbych.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1 Amherthnasol.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Ymgynghorodd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ynghylch Cynlluniau Gweithgarwch 2021-2022 drwy'r holl awdurdodau cyfrifol (yr Awdurdod Lleol, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Prawf Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr).

8.2 Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn adrodd yn flynyddol i Bwyllgor Craffu Partneriaethau'r Cyngor.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae'n bwysig bod cost darparu'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Diogelwch Cymunedol yn parhau i gael ei bodloni yn defnyddio cyllidebau a chyllid allanol sydd ar gael.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Bod gwybodaeth sy'n dod i'r Awdurdod Lleol ac allan ohono yn cael ei rhannu'n briodol ac y gweithredir ar y wybodaeth. Caiff hyn ei reoli drwy adroddiad diogelwch cymunedol ysgrifenedig chwarterol i'r Tîm Arwain Strategol a'r Aelod Arweiniol a thrwy sefydlu cyfarfod chwarterol yn cynnwys uwch swyddogion sy'n mynychu'r Byrddau Diogelwch Cymunedol a Diogelu Rhanbarthol.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

- Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998
- Deddf Diwygio'r Heddlu 2002
- Adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000
- Adran 19 a 20 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder
- Rheoliadau Trosedd ac Anhrefn (Trosolwg a Craffu) 2009

- Mae Adran 7.15.2 o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi bod gan y Pwyllgor Craffu Partneriaethau, yn ei rôl fel Pwyllgor Trosedd ac Anhrefn y Cyngor, ddyletswydd i sicrhau bod buddiannau, adnoddau a blaenoriaethau'r Cyngor yn cael eu hadlewyrchu yng ngwaith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, yn unol ag adrannau 19 a 20 Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006.

Swyddog Cyswllt:

Sian Taylor - Rheolwr y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



Community Safety Partnership

Performance report for 2021-2022 for Denbighshire

Overall Community Safety Plan Performance summary

Of the three main priority areas of work for the Community Safety Partnership at the end of March 2022 two were Acceptable and one Good. We have seen an increase in the numbers of youth offending, domestic abuse and stalking however we have seen reductions in all of the other types of crimes we are required to monitor when compared to the year before.

When comparing to last year one area has seen a change in status and that is due to an increase in youth offending. It has resulted in the Good status changing to Acceptable under reducing reoffending performance category.

Outcome and Performance summary

Here is a summary position for each Partnership Priority in 2021- March 2022.

Key

The Colours

Colour	Measure Status
Green	Excellent
Yellow	Good
Orange	Acceptable
Red	Priority for improvement

Priority	Activity Description	Performance Status	Project/ activity Progress
<p><u>Priority 1</u> Reduce Crime and Disorder in the area by working in partnership.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Reduce victim based crime • Reduce Antisocial Behaviour (ASB) • Support vulnerable people to prevent them becoming victims of crime • Reduce repeat incidents of victim based crime and Antisocial Behaviour for victims and perpetrators • Deal effectively with high risk cases of Domestic Abuse and Sexual Violence • Increase the confidence in reporting Domestic Abuse and Sexual Violence • Increase awareness amongst young people of sexual violence • Work with the Multi-agency risk assessment Conference to manage all levels of repeat victims of domestic abuse 	<p>Acceptable</p>	<p>Good</p>
<p><u>Priority2</u> Reduce Reoffending</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Adult reoffending • Children and young people reoffending • Work collectively in preventing Organised crime 	<p>Acceptable</p>	<p>Good</p>
<p><u>Priority 3</u> Local and Regional priorities</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Work collectively to manage antisocial behaviour and the response to antisocial behaviour locally. • Work collectively on Domestic abuse and violence locally 	<p>Good</p>	<p>Good</p>

Priority 1- Reduce Crime and Disorder in Denbighshire by working in partnership

Priority 1 performance status-
Acceptable

Overall the performance for the Partnership is **Acceptable** due to the continued increased numbers of victims of domestic abuse and stalking and harassment. The status in 2021-2022 remains the same as 2020-2021

Work of the partnership included;

- Raising awareness of victim based crimes via social media, attending events and making sure information is available on our websites.
- Home and business surveys carried out by crime reduction advisors and Police Community Support Officers to help prevent burglaries.
- We provided 32 homes with target hardening equipment and crime prevention advice (Locks/door bars etc.)
- We participated in the monthly Multiagency Risk Assessment Conference meeting called MARAC's online where victims of domestic abuse are discussed and where action plans for assistance are put in place.
- Denbighshire sent out numerous press releases on domestic abuse throughout the year led by our Lead Member and we changed the colour of the Pont y Ddraig Bridge to signify the support of the Local Authority on White Ribbon day on the 25th of November 2021. We also held a vigil with partners in the events arena in Rhyl to show our support to preventing violence. The International day is dedicated to raising awareness of domestic abuse and violence against women and girls. Denbighshire Leisure were very supportive of the event and enabled us to hold the vigil in the events arena free of charge.
- We promoted the 'Live fear free All Wales helpline' received 192 calls from Denbighshire residents. We have been promoting the helpline number at every opportunity.



Photograph shows the landmarks and the Vigil held 25th November 2021

**Priority 1 Project/activity update –
Good**

We, as a Partnership continued with the work identified in our work plan for 2021-2022. We also added additional multi agency groups to look at the disruption of organised crime by utilising the individual powers in each organisation. This group helps to provide the police with a rich picture of what's going on with individuals identified as being involved with organised crime.

Regional meetings continued discussing Modern Day Slavery, County Lines, Integrated Offender Management, Domestic abuse and substance misuse via the Area Planning Board meetings. There have also been a number of regional operational groups established to help carry forward specific pieces of work. For example preventing terrorism operational group, modern day slavery operational group to name a couple.

Many things which require us to do face to face engagement we managed to do utilising online technology in the first half of the year and attending events in person once they started again later in the year.

Priority 2- Reducing reoffending

**Priority 2 performance status-
Acceptable**

Overall the performance for the partnership is **Acceptable**

Denbighshire	Fiscal Year (YTD)		Change (YTD)
	2020/21	2021/22	
Repeat offenders (Aged 18 and over)	223	189	-15.2%
Repeat offenders (Aged 17 and under)	14	27	92.9%

In 2021-2022 we have seen reductions in adult offending and an increase in youth offending hence the status being acceptable.

The work of the partnership is as follows:

- Local Integrated offender management programmes continues remotely initially and have managed adult offender and those young people transitioning between childhood and adulthood.
- We continued to promote community resolutions and restorative justice when solving minor issues, some of this work was online and the victims of crime found
- We attended the quarterly multiagency online Prevent and Deter meetings where we discuss those young people coming to the attention of the Police and Youth Justice Service so that a plan of support can be put in place to help prevent further offending.
- We have attended 5 restorative justice conferences where we have acted as the critical friend in the process.
- We are currently working in partnership to identify repeat antisocial behaviour (ASB) youth offenders as this is one of the common denominators in issues we have with ASB in communities.
- We have been working closely with the Youth Justice Service and the Youth services in Denbighshire to access some deterrents for young people and some diversionary activities when youth antisocial behaviour issues have been raised with us as a partnership as well as sharing intelligence with the police so that repeat offenders are targeted.
- We have established a dedicated forum in Rhyl to look at crime and disorder matters. This group has been established as there are a number of issues in the area that require a single coordination point.

**Priority 2 Project /activity update-
Good**

The Community Safety Partnership continued to support the multiagency attendance at the Integrated Offender Management programme and assisting with the actions of that programme. We will continue to assist with the programme, which will also address Organised Crime Groups (OCG's) and County Lines work.

We are now trying more targeted work with young offenders as the numbers are relatively small and we think we can have an impact of diverting the offending behaviour. This work will be ongoing.

Priority 3- Local Priorities

Priority 3 performance status- Good

Overall performance of the partnership is Good

In 2020-2021 we have seen a slight increase in the number of reports of antisocial behaviour and repeat victims of ASB. The work of the partnership was as follows:

- Establishing local multiagency groups in Denbighshire to manage repeat incidents of Antisocial Behaviour
- Promoting the use of community resolutions to resolve repeat incidents of antisocial behaviour
- Using, when appropriate community protection notices / Public Space Protection Orders
- Control of licenced premises and enforcement and monitoring of taxi licences undertaken by the licensing department. All of this work was slightly different when lockdown first hit.
- Operations targeting Car washes under modern day slavery action plans (this work continued in March 2022)
- Sharing information about online fraud utilising National campaigns especially given the reliance on online platforms for everything.
- Community Tension Monitoring this included hate crime monitoring with the assistance of the Regional cohesion team
- Monitoring of protests and vigils
- Applying for additional third sector funding for additional domestic abuse services locally.

Priority 3 Project/activity update- Good

We will continue to support the monthly Antisocial Behaviour (ASB) tasking meeting which monitors repeat incidents of ASB and provides a multi-agency response to issues raised as well as taking part in restorative justice conferences and promoting community resolutions and mediation.

We participated in raising awareness of Domestic Abuse, Modern Slavery and County Lines locally, the direction for this work comes from the newly established Regional Vulnerability and Exploitation board and the operational subgroups.

Internally the corporate priority on domestic abuse was split into specific work areas including; Communications internally and externally, training and early intervention. This work complimented the work of the Regional Vulnerabilities Board and the regional domestic abuse team.

Additional police activity was carried out in the area of the Night Time economy specifically looking at violence against women and girls

Ask Angela schemes still running in public houses in Denbighshire (where people can ask bar staff for help if they feel threatened or uncomfortable in anyway and they will be given a way out and any assistance required)

A scheme in Conwy and Denbighshire was established where the consulting rooms in all pharmacies can be used as a safe space.

5k Welsh Government Regional Communication Grant for Domestic abuse spent on Live Fear Free merchandise – lip balms, hand sanitisers and pens –left in GP practices and pharmacies in rural/coastal areas. These were also sent to North Wales Police for distribution during Christmas campaigns in licensed premises. It is hoped that people requiring assistance will see/use the free telephone number on innocuous products. Products specially chosen as they are everyday products and easy to conceal.

Healthy relationships sessions held in schools and youth clubs. This is aimed at educating young people on what is a normal way to behave and what isn't.

£20k Revenue Funding Grants awarded for the Regional Caring Dad's perpetrator programme and also a support worker to work with mothers and children of those attending programme. There is a greater push regionally and nationally to focus some resources on perpetrators and preventing the behaviour in the first instance.

£252k Capital funding secured from the Welsh Government to provide three additional disbursed units for victims of domestic abuse with additional complex needs (particularly focussed on substance misuse and mental health issues)

